



FLVC

Flintshire Local Voluntary Council

CGLISFf

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint

Cefnogi, Hyrwyddo a Datblygu'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol

Adroddiad Effaith Blynyddol 2024/25



Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint



EIN HYMDDIRIEDOLWYR o fis Ebrill 2024

Peter Agnew Cadeirydd

Barbara Roberts

Pip Perry MBE

Marjorie Thomson

John Hatton

Ian Papworth

Tim Byram

Karen Armstrong

David Wisinger

Natasha Wait

Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint

Uned 3 Parc Busnes yr Wyddgrug

Ffordd Wrecsam

YR WYDDGRUG

Sir y Fflint CH7 1XP

☎ 01352 744000

✉ info@flvc.org.uk

www.flvc.org.uk

🐦 @FLVCFllntshire 📘 flvcpage

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3301204 Rhif
Elusen Gofrestredig 1062644

Adroddiad Effaith Blynyddol 2024/25

EIN STAFF o fis Ebrill 2024

Ann Woods Prif Swyddog

Tessa Willow

Rheolwr Datblygu'r Trydydd Sector
(Gwasanaethau Craidd)

Katherine Hussey

Rheolwr Datblygu'r Trydydd Sector
(Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Tîm Gweinyddol

Nicola Valentine Uwch Weinyddwr

Geraint Jones Gweinyddwr

Canolfan Gwirfoddolwyr

Emily Morgan Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Robyn Lee Swyddog Datblygu Gwirfoddoli

Cyllid a Llywodraethiant

Shaun Darlington Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector
(Llywodraethiant)

Heather Hicks Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector
(Cyllid)

Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Charlotte Anderton Arweinydd Tîm Rhagnodi
Cymdeithasol

Kate Howard Arweinydd Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Dafydd Gwynedd Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Joanne Overton-Jones Rhagnodydd Cymdeithasol
(Hwb Help Cynnar)

Stephanie Jones Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Lewis Williams Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

ADRODDIAD CADEIRYDD CGLLSFF



Bu Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLLSFF) yn hyrwyddo, datblygu a chefnogi gweithgaredd gwirfoddol a chymunedol lleol am dros 26 mlynedd. Gyda chefnogaeth Bwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig, mae ein tîm o staff wedi cwblhau blwyddyn arall o ymateb i angen y gymuned – cefnogi grwpiau cymunedol wrth redeg eu sefydliadau a chysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda'r gefnogaeth a'r gweithgareddau y mae'r grwpiau hyn yn eu darparu.

Mae ein sefydliad yn un o rwydwaith o 19 Cyngor Gweithredu Gwirfoddol sy'n cwmpasu Cymru. Daw'r rhan fwyaf o'n cyllid drwy gytundeb seilwaith gyda Llywodraeth Cymru, ond rydym hefyd yn dibynnu ar gyllid gan Gyngor Sir y Fflint a nifer o gyrff cenedlaethol a lleol eraill, yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Teuluoedd yn Gyntaf. Mae pob Cyngor Gweithredu Gwirfoddol yn cynnig pecyn unigryw i gefnogi gwaith y Trydydd Sector ac yn ein tîm o 13 o weithwyr gyflogaion, mae gennym dimau neilltuol yn gweithio yn y meysydd canlynol:

- **Rhagnodi Cymdeithasol** – gweithio gyda gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol.
- **Gwirfoddoli** – Hyrwyddo profiadau gwirfoddoli a hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal cynaliadwyedd y Trydydd Sector.
- **Llywodraethu a Chyllid** – Rhoi cyngor gwerthfawr ar lywodraethu a chyllid i'r 2000+ o fudiadau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae CGLLSFF wedi gorfod ymateb i lu o heriau yn ein sir, yn cynnwys pandemig COVID, gyda'r cynnydd dilynol mewn arwahanrwydd cymdeithasol a phroblemau iechyd meddwl, cynnydd mawr mewn costau byw a chyfyngiadau ariannol cynyddol gan ein cyllidwyr. Wrth i deuluoedd wynebu pwysau cynyddol, gwelwn gynnydd yng nghymhlethdod yr angen yn ein hatgyfeiriadau, gan ddangos y galw cynyddol ar bob gwasanaeth cyhoeddus a thrydydd sector. Fodd bynnag, ein hathroniaeth fel sefydliad yw y dylem fod yn gwneud mwy na dim ond ymateb i sefyllfaoedd, ond hefyd mynd ati i ddylanwadu ar bolisïau ar ein gwaith gydag ystod o fudiadau cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant. Un enghraifft o hyn ydy sut mae ein Prif Swyddog wedi gallu arwain a chynghori pobl allweddol lleol sy'n gwneud penderfyniadau trwy ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Fel Bwrdd Ymddiriedolwyr, ein gwaith ni yw gweithredu fel 'cyfaill beirniadol' i CGLLSFF i sicrhau uniondeb y sefydliad, o gywirdeb ariannol (wedi'r cyfan, mae CGLLSFF yn gyfrifol am symiau sylweddol o arian cyhoeddus) i sicrhau y caiff y polisïau cyflogaeth cywir eu dilyn.

Rydym hefyd yn helpu CGLISFF i leoli ei hun yn strategol i ateb anghenion cyfredol a dyfodol cymuned Sir y Fflint. Mae hyn yn golygu cymryd 'cam yn ôl' a defnyddio ein profiad fel ymddiriedolwyr o ystod eang o gefndiroedd, i gynghori'r Prif Swyddog. Rydym yn falch o'r gwaith a wnaethom gyda thîm CGLISFF i hyrwyddo effaith dulliau mesur i feintioli a gwerthuso'r cynnydd a wnawn ar draws yr holl sefydliad. Gan edrych i'r dyfodol, gwelsom fod galw cynyddol gan fudiadau gwirfoddol ar draws y sir i hybu'r gwaith clodwiw a wnawn eisoes drwy ddarparu arbenigedd a chanllawiau ar gyllid, felly bydd hyn yn gynllun allweddol yn y flwyddyn i ddod.

Hoffwn gloi drwy ddiolch o galon ar ran pawb ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr i'r Prif Swyddog a'i thîm yn CGLISFF am eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad di-baid drwy gydol y flwyddyn. Byddwch yn gweld llawer o enghreifftiau yn y tudalennau sy'n dilyn o'u gwaith hanfodol a'u heffaith wrth wella bywydau pobl yn Sir y Fflint. Ond hoffwn hefyd orffen gyda apêl i bawb ohonoch sydd â diddordeb mewn dod yn ymddiriedolwyr. Rydym yn grŵp clos o bobl o amrywiaeth o gefndiroedd sy'n rhannu angerdd dros newid bywydau yn y gymuned. Os ydych chi'n rhannu'r ymroddiad hwn, buasem wrth ein boddau yn clywed gennych.

Peter Agnew Cadeirydd CGLISFF

YMGYSYLLTU A DYLANWADU

Mae CGLISFF yn parhau i fod â rôl allweddol yn natblygiad strategol gwasanaethau cyhoeddus.

Mae Prif Swyddog CGLISFF yn cynrychioli'r trydydd sector ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac wedi cadeirio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam (Cadeirydd anstatudol cyntaf unrhyw Fwrdd o'r fath yng Nghymru).

- Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda phartneriaid statudol a thrydydd sector fel rhan o bartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Yn 2024 buom yn gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint i gyflwyno cynhadledd yng Ngholeg Cambria ar gysylltiadau rhwng darpariaeth statudol ar gyfer addysg a gwasanaethau'r trydydd sector.
- Rydym yn aelodau o Grŵp Llywio Adferiad Economaidd Sir y Fflint, sydd wedi goruchwyllo asesu ceisiadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn Sir y Fflint.
- Buom yn gweithio gyda Chyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddylanwadu ar ymarfer caffael ar gyfer dull gweithredu aml-asiantaeth i wasanaethau cyhoeddus.



- Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid TSWW ar y Strategaeth Dysgu a Datblygu genedlaethol, ffrwd gwaith effaith a diogelu cymuned ymarfer.
- Rydym yn cynrychioli Cynghorau Gwirfoddol Sirol y Gogledd ar y Fforwm Cydnerthedd Lleol (Cynllunio Argyfwng) ac yn mynychu is-grŵp Cymorth Dyngarol a Gwirfoddol y Gogledd.
- Rydym yn cwrdd yn rheolaidd gyda grwpiau cymunedol a mudiadau elusennol newydd a phresennol i'w cysylltu gyda'r sector ehangach a phartneriaid statudol.
- Rydym yn cynrychioli'r Trydydd Sector a rhagnodi cymdeithasol yng nghyfarfodydd clwstwr cyflym meddygon teulu Sir y Fflint sy'n dod â phob gwasanaeth cyhoeddus iechyd a gofal ynghyd.

Ann Woods Prif Swyddog CGLISFF

☎ 01352 744028 ✉ ann.woods@flvc.org.uk

GWIRFODDOLI

“ Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Mind Gogledd Ddwyrain Cymru wedi cael llawer o fantais o gymorth anhygoel Canolfan Wirfoddoli CGLISFF. Bu gweithio gyda nhw yn help enfawr, yn arbennig wrth ddatblygu a chryfhau ein llwyfan gwirfoddoli drwy Gwirfoddoli Cymru, sydd bellach wedi tyfu o nerth i nerth.



Mae'r tîm wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau rhagorol eleni ar gyfer rheolwyr a chydlynwyr gwirfoddolwyr, yn cynnwys sesiynau hyfforddi byr ar bynciau fel recriwtio gwirfoddolwyr, mesur effaith a chynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr gan hefyd roi cyfle i rwydweithio a dysgu gan eraill mewn swyddi tebyg. Cawsom adborth rhagorol gan bobl a fynychodd y digwyddiadau hyn, a byddwn yn parhau i'w cynnal bob chwarter, gan ymateb i anghenion ac awgrymiadau pobl sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr.

Fe wnaethom hefyd gynnal digwyddiad gwirfoddoli ar gyfer pobl ifanc a roddodd gyfle i dros 200 o fyfyrwyr i gwrdd â sefydliadau sy'n cynnig swyddi i rai dan 18 oed.

Rydym wedi newid y model darparu ar gyfer ein prosiect gwirfoddoli â chymorth, mewn ymateb i adborth gan bartneriaid a chyfranogwyr ifanc. Rydym bellach yn cynnig sesiynau blasu 1 a 2 ddiwrnod o hyd ar gyfer unrhyw un sy'n 14+ oed fyddai'n hoffi rhoi cynnig ar weithgareddau gwirfoddoli a chael cymorth un i un i'w helpu i ganfod swydd addas.

Mae ein Panel Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc, y mae pawb arno yn wirfoddolwyr rhwng 14 a 25 oed, wedi ffynnu eleni a chafodd aelodau'r rôl ychwanegol o ddewis enillwyr ein Gwobrau Gwirfoddoli Ieuencid blynnyddol (Gwobrau Tom Jones); mae eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad yn ysbrydoliaeth.

”



165

o bobl wedi'u cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli

61

wedi cymryd rhan mewn 4 Cyfarfod Trefnwyr Gwirfoddol



25

grŵp a sefydliad wedi cael cymorth a chynghor uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â gwirfoddoli ac arfer da

“

Mae Emily yn ased mor wych i'r tîm. Mae'n wych am gyfathrebu, gydag agwedd gadarnhaol a gallu gwneud ac yn wybodus iawn am reoli a recriwtio gwirfoddolwyr. Mae'n ased gwerthfawr i CGLISFF ac yn hyfryd i weithio â hi gyda i gan fod ein swyddi yn cefnogi ei gilydd.

”

CYLLID A LLYWODRAETHIANT

“cawsom gymorth a chyngor ar y ffordd orau i ddefnyddio'r cyllid a gawsom i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.

”

“Cafodd ein grŵp lawer iawn o gymorth wrth ddelio gyda newid statws a hefyd deall gofynion cyfreithiol Tŷ'r Cwmnïau a mwy.

”

Roedd ymestyn y Gronfa Ffyniant Gyffredin (rhan o raglen Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y DU) yn ddatblygiad sylweddol eleni. Mae CGLISFF yn gweithio mewn partneriaeth gyda Cadwyn Clwyd ar gronfa allweddol Cymunedau Ffyniannus Sir y Fflint, gan gefnogi mudiadau lleol i fanteisio ar gyllid ar gyfer gwella eu safleoedd a datblygu eu gweithgareddau. Mae'r gwaith hwn yn parhau ym mlwyddyn ariannol 2025-26 a disgwylir iddo fuddsoddi bron i £750,000 mewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol yn Sir y Fflint. Mae gan aelodau staff CGLISFF wybodaeth fanwl o grwpiau lleol a chyfrannodd hyn yn sylweddol at lwyddiant y rhaglen.

Dros y flwyddyn cafodd cyfanswm o £775,000 ei ddosbarthu i 50 mudiad drwy dri chylch o gyllid grant y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae adborth cadarnhaol a chanlyniadau rhagorol yn golygu y bydd gwaith y bartneriaeth yn parhau yn 2025-26 gyda blwyddyn bontio arall o gyllid i gefnogi prosiectau newydd a phrosiectau cyn-datblygu ymgeiswyr presennol.

Yn ystod eleni fe wnaethom gefnogi 245 o grwpiau gyda chyngor ac arweiniad ar bob agwedd o redeg eu grŵp/mudiad, yn cynnwys help gyda chyfansoddiadau, cofrestru elusen, gwybodaeth am gyllid, datblygu polisi, llywodraethiant a gofynion cyfreithiol.



Fe wnaethom helpu ystod eang o fudiadau cymunedol a gwirfoddol lleol i gyrchu mwy na £600k o ffynonellau cyllid lluosog.

Gweinyddwyd tair cronfa grant:

Dyfarnodd Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc Sir y Flint chwe grant yn gyfanswm o **£5,335**



Dyfarnodd Cist Gymunedol FCC 26 grant a oedd yn gyfanswm o **£19,722**

Cynhaliwyd digwyddiadau cwrdd â'r cyllidwyr (yn cynnwys un ar y cyd gyda Hannah Blythin AS) a chymorthfeydd unigol gydag amrywiaeth o gyllidwyr, yn cynnwys:

- Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cynllun Treth Gwarediadau Tirlenwi
- Codi arian rhwydd
- Cronfa Budd Cymunedol Parc Adfer
- Chwaraeon Cymru
- Cadwyn Clwyd
- Sefydliad Steve Morgan
- Busnes Cymru
- Ymddirideolaeth Eglwysi Genedlaethol

IECHYD A LLESIANT

Mae cronfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ariannu swyddi allweddol Galluogwyr Iechyd a Llesiant ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn y Gogledd. Mae'r swydd yn gyswllt strategol allweddol rhwng sefydliadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thrydydd Sector. Mae gan CGLISFF hefyd dîm Rhagnodi Cymdeithasol, sy'n cydweithio gyda'r sector statudol i gysylltu preswylwyr Sir y Fflint gyda gwasanaethau iechyd a lesiant yn y gymuned.

Yn 2024/25

Gwnaethom gyfrannu at bartneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Ar y cyd gyda AVOW yn Wrecsam, rydym wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd o'r rhwydwaith Iechyd a Llesiant. Rydym yn dwyn cyrff trydydd sector a phartneriaid lleol ynghyd (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) sy'n gweithredu yn Sir y Fflint a Wrecsam gyda diddordeb mewn iechyd, gofal cymdeithasol a lesiant. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfleoedd rhwydweithio a fforwm i drafod pynciau cyfoes a rhannu gwybodaeth a syniadau arfer da/gorau.



Rydym yn parhau i gynnal ein rhwydwaith Plant a Phobl Ifanc yn Sir y Fflint gyda hyd at 25 yn mynychu gan gynnig cyfleoedd rhwydweithio a chydweithio, gan ganolbwyntio ar y trydydd sector a phartneriaethau statudol sy'n gweithio gyda rhai 0-25 oed.



Yn y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025 mae'r tîm rhagnodi cymdeithasol wedi cefnogi 1850 o breswylwyr Sir y Fflint.



Mae ein tîm Rhagnodi Cymdeithasol yn derbyn atgyfeiriadau gan ystod eang o ffynonellau yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, prosiectau cymunedol, teulu a ffrindiau, a hunan-atgyfeiriadau. Mae pobl rydym yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi ein clust i wrando ac arbenigedd.



“Rwy'n teimlo mod i wedi bod yn mynd o amgylch mewn cylchoedd ac y bydd hyn yn dod â phopeth ynghyd yn dda”

“rydych wedi tynnu pwysau oddi ar fy ysgwyddau, rwy'n gallu anadlu eto, doeddwn i ddim yn disgwyl hyn”

“Mae gwasanaeth CGLISFF yn wych. Maent yn ymateb yn dda i unrhyw ymholiadau a bob amser wedi medru cyfeirio at adnoddau perthnasol.



Am y flwyddyn yn diweddau
31 Mawrth 2025

Sut caiff CGLTSF ei ariannu

Category	Percentage
Llywodraeth Cymru Cyllid Seilwaith	35%
Cyngor Sir y Fflint	16%
Cronfa Integreiddio Rhanbarthol	14%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	13%
Llywodraeth Cymru Teuluoedd yn Gyntaf a Blynnyddoedd Cynnar	9%
Cadwyn Clwyd	6%
Grantiau a gafwyd i'w dosbarthu	4%
Llog ac incwm arall	4%

Cyfanswm Incwm yn 2024/25 **£651,325**

Costau Staff
Costau Safle
Dibrisiant
Costau CCB
Ffioedd Proffesiynol
Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant
Yswiriant ac Indemnïaeth
Costau Llywodraethiant
Dosbarthu Grantiau

2025	2024
466,682	472,105
76,136	72,724
-	-
1,390	640
14,797	25,641
147	1,991
3,383	2,039
6,708	2,960
31,864	44,579
£601,107	£628,125

Cyfanswm Gwarant yn 2024/25 **£601,107**